COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

3. CWMPAS A NOD YR AROLWG

4. CYNIGION DRAFFT

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6. ASESIAD

7. CYNIGION

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

9. CYDNABYDDIAETHAU

10. Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: cfllcymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau'r arolwg o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â'ch Cyfarwyddyd i ni dyddiedig 8 Tachwedd 2007 (Atodiad 1).

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cynigiwn:

- … fod y ffin rhwng Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla a Llangrallo Isaf yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3; a

- … bod y ffin rhwng Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 5.

3. CWMPAS A NOD YR AROLWG

3.1 Diben yr arolwg yw ystyried a ddylai'r Comisiwn, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gynnig newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol. Mae'r arolwg yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Adran 6 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf).

Gweithdrefn

3.2 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw, ysgrifennom ar 14 Tachwedd 2007 at bob Cyngor Cymuned a Thref ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yr Aelodau Seneddol ar gyfer yr etholaethau lleol, Aelodau'r Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg a gofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Fe wnaethom ni hefyd gyhoeddi ein bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal a gofyn i'r Cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus. Rhoddwyd hysbysiad am gychwyn yr arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cynrychiolaethau (24 Ionawr 2008) ar wefan y Comisiwn.

4. CYNIGION DRAFFT

4.1 Mewn ymateb i'n gwahoddiad gwreiddiol, cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Tref Porthcawl, a Chynghorau Cymuned Bracla, Llangrallo Uchaf, Cwm Garw, Trelales, Llangynwyd Isaf, Llangynwyd Ganol, Merthyr Mawr, Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre. Yn ein Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 29 Medi 2008, ystyriom y materion a godwyd yn y cynrychiolaethau.

4.2 Gwnaethpwyd awgrymiadau ar gyfer newidiadau i ffiniau cymunedol yn yr ardaloedd canlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla a Llangrallo Isaf; a Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr.

Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla a Llangrallo Isaf

4.3 Ystyriasom yr awgrym a wnaed gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr am newid y ffin rhwng Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a Bracla, a Phen-y-bont ar Ogwr a Llangrallo Isaf. Yng ngolau ein hymweliad safle â'r ardal, lluniwyd barn gennym fod y ffin bresennol yn afreolaidd am ei bod yn rhannu Parc Busnes Dwn-Rhefn a Llys Haywain. Nodom fod Cyngor Cymuned Bracla wedi cytuno i'r adluniad awgrymedig i'r ffin (ni chafwyd unrhyw gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Llangrallo Isaf).

4.4 Fe wnaeth yr ymweliad safle gadarnhau bod yr adliniad awgrymedig i'r ffin gymunedol rhwng Bracla, Llangrallo Isaf a Phen-y-bont ar Ogwr yn dilyn nodweddion daearyddol sydd wedi'u diffinio'n glir.

4.5 Roeddem o'r farn y byddai'r newid awgrymedig yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, a chynigiwn y newid i'r ffin felly rhwng Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr a Chymuned Bracla, a newid i'r ffin rhwng Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr a Chymuned Llangrallo Isaf fel y dangosir ar y map yn Atodiad 3.

Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr

4.6 Nodom awgrym Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr er mwyn cynnwys Island Farm Road ac Island Farm Close o fewn ffin Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Nodom hefyd awgrym pellach y Cyngor i ymestyn y ffin er mwyn cymryd ardal o dir agored i'r gorllewin o Island Farm Road i alluogi ehangu'r Parc Gwyddoniaeth cyfagos ymhellach yn y dyfodol. Nodom nad oedd Cyngor Cymuned Merthyr Mawr fodd bynnag o'r farn fod angen unrhyw newid i'w ffin.

4.7 Roeddem o'r farn fod y ffin bresennol, lle mae'n rhannu ystad Island Farm, yn afreolaidd ac y byddai'n ddymunol, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, i'r ystad gyfan fod naill ai ym Mhen-y-bont ar Ogwr neu ym Merthyr Mawr. Nodom fod gan ystad dai Island Farm, yn sgil ei lleoliad ar gyrion Tref Pen-y-bont ar Ogwr, gysylltiadau agosach â'r gymuned honno na phentref ac ardaloedd gwledig Merthyr Mawr. Fodd bynnag, rydym yn ystyriol o'r ffaith y byddai trosglwyddo ystad Farm Island o Ferthyr Mawr yn lleihau etholaeth y Gymuned honno'n sylweddol, ac yn bwrw amheuaeth ar ei hyfywedd parhaus.

4.8 Wrth i ni ystyried ystad Farm Island ystyriwyd dau ddewis arall posibl gennym ar gyfer adlinio'r ffin rhwng Merthyr Mawr a Thref Pen-y-bont ar Ogwr. Y dewis cyntaf a ystyriwyd gennym fyddai trosglwyddo ystad Island Farm gyfan o Gymuned Merthyr Mawr i Gymuned Tref Pen-y-bont ar Ogwr a chyfuno Cymunedau Merthyr Mawr a Threlales er mwyn mynd i'r afael â'r goblygiadau i hyfywedd Merthyr Mawr. Yr ail ddewis fyddai adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr er mwyn trosglwyddo ystad Island Farm gyfan, a thir cyfagos, i Ferthyr Mawr o Ben-y-bont ar Ogwr. Cyflwynom y ddau ddewis hwn i Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

4.9 Cafwyd ymateb gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn dweud eu bod yn ffafrio dewis 1. Fodd bynnag, roeddent yn dymuno rhoi cynnig arall gerbron yn nodi'r cam gweithredu sydd orau ganddynt: bod yr etholwyr a nodir yn Ystad Farm Island yn etholwyr Merthyr Mawr yn cael eu trosglwyddo i Dref Pen-y-bont ar Ogwr, a bod yr etholwyr sy'n weddill yn cael eu

hailddyrannu i'r Cyngor Cymuned mwyaf priodol yn ddaearyddol, sef Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr neu Gyngor Cymuned Trelales.

4.10 Fe wnaeth Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr herio'r rhagosodiad y gall Cyngor Cymuned Merthyr Mawr weithredu'n ddigonol ar ran eu cymuned yn ei ffurf bresennol ac y byddai etholwyr yn cael eu gwasanaethu orau pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael ystyriaeth lawn.

4.11 Nodwyd gennym er bod Cynghorau Cymuned Trelales a Merthyr Mawr yn cefnogi'r awgrym i drosglwyddo ystad Island Farm gyfan a thir cyfagos i Ferthyr Mawr, nid oedd Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi hyn. Cyflwynodd Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr gynnig gwahanol, ond ni chyflwynodd unrhyw gynrychiolaethau manwl i gadarnhau ei ddatganiad. Nodom y byddai'r newidiadau a gynigiwyd gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn arwain at ddiddymu Cyngor Merthyr Mawr. Yn absenoldeb gwybodaeth fanwl, nid oeddem yn teimlo y gallwn gefnogi'r cynnig gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

4.12 Yn unol â hynny, roeddem o'r farn felly y byddai dewis 2 (trosglwyddo Ystad Island Farm gyfan a thir cyfagos i Ferthyr Mawr) yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Roeddem yn fodlon fod rhaniad Ystad Island Farm gan y ffin bresennol yn afreolaidd ac y dylid cynnwys yr ardal o fewn un gymuned. Byddai Dewis 2 yn gwneud hyn, a byddai hefyd yn ymestyn ffin bresennol Merthyr Mawr i gynnwys nifer o eiddo ychwanegol. Bydd y ffin ddiwygiedig yn cyd-ffinio hefyd ar yr ochr ddwyreiniol â'r ffin sirol i roi diffiniad gwell i'r gymuned. Cynigiasom felly newid y ffin rhwng Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr a Chymuned Merthyr Mawr fel y dangosir ar y map yn Atodiad 4.

Llangrallo Uchaf a Llansanffraid-ar-Ogwr

4.13 Ystyriasom yr awgrym gan Gyngor Cymuned Llangrallo Uchaf i gynnwys ardaloedd Heol Llan a Heol Llaethog yn ei Gymuned, am fod eu ffiniau mor agos ac oherwydd, yn ôl Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf, mae trigolion yr ardal hon yn defnyddio'u Cyngor fel cyfrwng i gwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Eglurom ehangder yr ardal dan sylw ond nid oeddem o'r farn bod y ffin awgrymedig yn llinell derfyn gliriach rhwng y ddwy gymuned na'r ffin bresennol. Ar yr adeg honno, o'r wybodaeth a ddarparwyd, nid oeddem yn fodlon y byddai'r newid yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus

Trelales

4.14 Nodom yr awgrym gan Gyngor Cymuned Trelales, oherwydd anghyfartaledd o ran cynrychiolaeth a achoswyd gan ddatblygiad tai diweddar, y dylid gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol eu cymuned. Esboniwyd fod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal o dan Adran 56 y Ddeddf sy'n ein galluogi i wneud cynigion am drefniadau etholiadol cymuned sy'n ganlyniad i unrhyw newid i'r ffin gymunedol. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod y Cynigion Drafft, ni wnaethom unrhyw gynigion am newidiadau i ffiniau Cymuned Trelales. Felly, nid oes modd i ni ystyried newidiadau i drefniadau etholiadol y gymuned ar hyn o bryd.

4.15 Ni wnaethom unrhyw gynigion am newidiadau i weddill yr ardaloedd cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

5.1 Yn wreiddiol, y dyddiad a bennwyd ar gyfer cynrychiolaethau mewn ymateb i'n Cynigion Drafft oedd 1 Rhagfyr 2008, ond estynnwyd hynny ar gais Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr i 5 Ionawr 2009. Mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft, cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Cymuned Bracla, Trelales a Merthyr Mawr. Gellir gweld crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2.

6. ASESIAD

Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla a Llangrallo Isaf

6.1 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe wnaethom gynnig newid i'r ffin rhwng Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr a Chymuned Bracla a newid i'r ffin rhwng cymuned Pen-y-bont ar Ogwr a Chymuned Llangrallo Isaf. Mewn ymateb i'n Cynigion Drafft, ysgrifennodd Cyngor Cymuned Bracla i ddweud nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud. Gan nad ydym wedi derbyn unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion hyn, casglwn fod pob parti arall â diddordeb yn cytuno â'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon.

6.2 Felly, rydym yn parhau o'r farn y byddai'r newidiadau'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr a Chymuned Bracla a newid y ffin rhwng Cymuned Pen-y-bont a'r Ogwr a Chymuned Llangrallo Isaf fel y dangosir ar y map yn Atodiad 3.

Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr

6.3 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft nid oeddem yn ystyried bod rhannu Ystad Island Ffarm gan y ffin bresennol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ac y dylai'r ardal gael ei chynnwys mewn un gymuned. Cynigiasom ddewis i adlinio'r ffin rhwng Cymuned Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Chymuned Merthyr Mawr er mwyn trosglwyddo ystad Island Ffarm gyfan a'r tir i'r dwyrain i Ferthyr Mawr o Ben-y-bont ar Ogwr fel y dangosir ar y map yn Atodiad 4.

6.4 Mewn ymateb i'n Cynigion Drafft ymgynghorodd Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr â'r trigolion hynny o'r ardal honno yn Ward Yr Hen Gastell yng Nghymuned Pen-y-bont ar Ogwr y cynigwyd eu symud i Gymuned Merthyr Mawr. Mae'r Cyngor yn ystyried mai canlyniad yr ymgynghoriad hwn yw y byddai'r mwyafrif clir o drigolion yn ffafrio aros yn ward Yr Hen Gastell ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

6.5 Rydym wedi derbyn copi o ymarferiad ymgynghori Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi ei ystyried yn ofalus. Ymddengys fod nifer o drigolion, fel y cynrychiolwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, yn erbyn y cynigion y dylid eu trosglwyddo i Ferthyr Mawr. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd barn trigolion Island Farm Close wedi'i rhannu mewn modd mor glir, gydag ymatebion yn dangos tri o drigolion o blaid aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr a dau o blaid cael eu trosglwyddo i Ferthyr Mawr.

6.6 Nododd y Comisiwn hefyd gynrychiolaethau yn ymwneud â gobeithion ar gyfer datblygu ar "dir agored" sydd ar y ffin ag Island Farm Road ac Island Farm Close. Mae hyn y galluogi'r Comisiwn i ailystyried materion ar ryw adeg yn y dyfodol pan allai'r datblygu fod wedi digwydd neu heb ddigwydd. Nid yw'r cynigion sy'n rhan o'r hyn a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys cynigion ar gyfer tai; cyflwyniad o natur fasnachol ydyw yn gyfan gwbl, ac ni fydd nifer yr etholwyr yn yr ardal yn newid o ganlyniad.

6.7 Nid yw'r cynnig y dylid diddymu Cyngor Cymuned Merthyr Mawr wedi cael unrhyw gefnogaeth gan etholwyr sy'n byw yn y gymuned honno. Gan nad hwn yw'r Cyngor Cymuned lleiaf yng Nghymru o bell ffordd, mae hyn awgrymu na ddylai'r Comisiwn wneud unrhyw argymhellion ynghylch ei ddiddymu, ond yn yr un modd ni ddylid cychwyn ar unrhyw argymhelliad a fyddai'n tanseilio'r Cyngor hwn mewn unrhyw ffordd.

6. 8 Rydym o'r farn o hyd fod y ffin bresennol, lle mae'n rhannu ystad Island Farm, yn afreolaidd ac y byddai'n ddymunol, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleu, i'r holl ystâd fod naill ai ym Mhen-y-bont ar Ogwr neu ym Merthyr Mawr. Er ein bod wedi cael ymateb cryf oddi wrth drigolion yn yr ardal hon i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Pen-y-bont yn erbyn ein cynnig gwreiddiol i adlinio'r ffin i ddilyn yr A48, mae'n angenrheidiol o hyd penderfynu ar ffin briodol er mwyn cywiro'r anghysondeb yn ystad Island Farm. Nodom fod y rhan fwyaf o ystad Island Farm yng Nghymuned Merthyr Mawr. Dim ond 11 eiddo, yn rhan ddeheuol Island Farm Close, sydd yng Nghymuned Pen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl ystyried yr holl gynrychiolaethau ac ym mhob un o'r amgylchiadau, rydym o'r farn y dylid cynnwys yr holl ystad yng Nghymuned Merthyr Mawr.

6.9 Er mwyn sefydlu ffin glir rydym yn cynnig addasu'r ffin a argymhellwyd yn ein cynigion Drafft i fynd â thai Island Farm yn unig i Gymuned Merthyr Mawr. Dangosir y cynnig hwn ar y map yn Atodiad 5. Cynhaliwyd ymweliad safle â'r ardal ac rydym wedi penderfynu fod y ffin awgrymedig yn dilyn nodweddion daearyddol a ddiffinnir yn glir.

Llangrallo Uchaf a Llansanffraid-ar-Ogwr

6.10 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft ystyriasom yr awgrym gan Gyngor Cymuned Llangrallo Uchaf i gynnig cynnwys ardaloedd Heol Llan a Heol Llaethog yn ei Gymuned. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, o'r wybodaeth sydd wedi'i darparu, nid ydym yn fodlon y byddai'r newid yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gan nad ydym wedi derbyn unrhyw gynrychiolaethau pellach o bartïon â diddordeb, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion am newid y ffin rhwng Llangrallo Uchaf a Llansanffraid-ar-Ogwr.

Trelales

6.11 Nodom yr awgrym gan Gyngor Cymuned Trelales y dylid gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol eu cymuned. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwnnw nid oeddem yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin Cymuned Trelales, ac felly nid oedd modd i ni gynnig newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol. Unwaith eto, yn y rhain, sef ein Cynigion Terfynol, nid ydym yn cynnig unrhyw newidadau i ffin Cymuned Trelales ac felly, er yr ymddengys i ni fod rhinwedd i adolygu trefniadau etholiadol y gymuned, nid ydym yn gallu gwneud hynny fel rhan o'r arolwg hwn. Felly, rydym wedi cyfeirio'r mater hwn at Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a allai ystyried cynnal arolwg o dan adran 57(4) y Ddeddf.

7. CYNIGION

7.1 Wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael i ni, cynigiwn y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a Bracla yn yr ardal dan sylw i ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3. Cynigiwn hefyd y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr, a Merthyr Mawr yn yr ardal dan sylw i ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 5.

7.2 Gellir archwilio mapiau manwl ar raddfa fwy sy'n dangos y ffiniau newydd arfaethedig yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

8.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd hefyd yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau ôl-ddilynol ar y trefniadau etholiadol i gynghorau cymuned a'r prif awdurdod, a fyddai'n deillio o'r newidiadau hyn. Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn manylu ar ein cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol. Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

8.2 Nid yw Cymuned Bracla wedi'i rhannu'n wardiau ar hyn o bryd, ac mae ganddi 8,241 o etholwyr a gynrychiolir gan 11 o gynghorwyr (749 o etholwyr fesul cynghorydd). O dan ein cynigion bydd nifer yr etholwyr yng Nghymuned Bracla yn gostwng 11 i 8,230 o etholwyr. Rydym o'r farn nad yw'r gostyngiad hwn o ganlyniad i newid y ffin yn un mor sylweddol i ofyn am ostyngiad yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli Cymuned Bracla.

8.3 Nid yw Cymuned Llangrallo Isaf wedi'i rhannu'n wardiau ar hyn o bryd, ac mae ganddi 1,034 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 o gynghorwyr (148 o etholwyr fesul cynghorydd). O dan ein cynigion ni fydd nifer yr etholwyr yng Nghymuned Llangrallo Isaf yn newid, ac nid ydym felly'n gwneud unrhyw gynigion i newid trefniadau etholiadol Cymuned Llangrallo Isaf o ganlyniad i'r newid arfaethedig i'r ffin gymunedol.

8.4 Nid yw Cymuned Merthyr Mawr wedi'i rhannu'n wardiau ar hyn o bryd, ac mae ganddi 207 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 o gynghorwyr (30 o etholwyr fesul cynghorydd). O dan ein cynigion bydd nifer yr etholwyr yng Nghymuned Merthyr Mawr yn cynyddu 21 i 228 o etholwyr. Rydym o'r farn nad yw'r gostyngiad hwn o ganlyniad i newid y ffin yn un mor sylweddol i ofyn am gynnydd yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli Cymuned Merthyr Mawr.

8.5 Mae Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd wedi'i rhannu at ddibenion etholiadol Cymunedol, yn wardiau cymunedol Morfa, Castellnewydd ac Yr Hen Gastell. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Pen-y-bont ar Ogwr	Morfa	3,266	6	544
	Castellnewydd	4,233	7	605
	Yr Hen Gastell	3,641	6	607
		11,140	**19**	**586**

* Etholwyr fesul cynghorydd

8.6 O dan y cynigion byddai nifer yr etholwyr yn ward Yr Hen Gastell yn gostwng 32 i 3,609 (11 yn cael eu trosglwyddo o Fracla a 395 yn cael eu trosglwyddo i Ferthyr Mawr). Rydym o'r farn nad oes angen unrhyw newid yn nifer y cynghorwyr er mwyn cynnal lefel debyg o gynrychiolaeth i'r hon sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymuned Pen-y-bont ar Ogwr. Nid ydym felly'n cynnig cynyddu nifer y cynghorwyr. Mae'r tabl canlynol yn dangos effaith y bydd newidiadau arfaethedig i'r ffin yn ei chael ar drefniadau etholiadol Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Pen-y-bont ar Ogwr	Morfa	3,266	6	544
	Castellnewydd	4,233	7	605
	Yr Hen Gastell	3,609	6	601
		11,108	**19**	**585**

Trefniadau Etholiadol y Cyngor Bwrdeistref Sirol

8.7 Mae Adran Etholiadol Bracla yn cynnwys Cymuned Bracla ac ar hyn o bryd mae ganddi 8,241 o etholwyr a gynrychiolir gan 4 o Gynghorwyr. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Bracla a Phen-y-bont ar Ogwr yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn Adran Etholiadol Bracla yn gostwng i 8,230.

8.8 Mae Adran Etholiadol Yr Hen Gastell yn cynnwys ward Yr Hen Gastell yng Nghymuned Pen-y-bont ar Ogwr, ac ar hyn o bryd mae ganddi 3,641 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Bracla a Phen-y-bont ar Ogwr, a'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Peny-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn Adran Etholiadol Yr Hen Gastell yn gostwng i 3,609.

8.9 Mae Adran Etholiadol Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr yn cynnwys Cymuned Merthyr Mawr a ward Trelales/Bryntirion yng Nghymuned Trelales, ac ar hyn o bryd mae ganddi 5,753 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn Adran Etholiadol Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr yn cynyddu i 5,774.

8.10 Ar gyfer yr holl adrannau etholiadol a nodir uchod, rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob adran etholiadol ar hyn o bryd. Yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn arolygu trefniadau etholiadol yr holl brif gynghorau yng Nghymru, a rhagwelwn y byddwn yn derbyn cyfarwyddiadau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru fel canllaw i ni wrth gynnal yr arolwg. Bryd hynny, byddwn yn edrych yn fanwl ar drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn ystyried unrhyw newidiadau sy'n codi o'r newidiadau arfaethedig hyn i ffiniau cymunedol.

9. CYDNABYDDIAETHAU

9.1 Dymunwn ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac i'r Cynghorau Cymuned am eu cymorth ac i bob unigolyn a chorff a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

10. Y CAMAU NESAF

10.1 Ar ôl cwblhau ein hystyriaeth o'r arolwg o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a chyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad statudol o dan y Ddeddf.

10.2 Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd nawr yn penderfynu, os gwêl yn dda, p'un ai i'w derbyn neu i orchymyn y Comisiwn i gynnal arolwg pellach.

10.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau eraill ynghylch y materion yn yr adroddiad at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid eu gwneud cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

Y Tîm Democratiaeth
Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Is-Gadeirydd)

MR D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Mai 2009

GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL) (BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR) CYFARWYDDYD 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i arfer y pwerau y rhoddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ôl adran 56 Deddf Llywodraeth Leol 1972[1] y mae ei phwerau yn awr yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru[2]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

mae "y Ddeddf" yn golygu Deddf Llywodraeth Leol 1972;

mae "y Comisiwn" yn golygu Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn amodol ar adran 56(1) y Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn rhoi Cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr at ddiben ystyried a ddylid gwneud cynigion o'r fath ai peidio mewn perthynas â'r ardal dan sylw fel y'u hawdurdodir gan adran 54 y Ddeddf a pha gynigion i'w gwneud, os o gwbl; a rhaid i'r Comisiwn, os ydynt o'r farn eu bod yn gweddu, ffurfio cynigion o'r fath yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons

Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad: 08 / 11 / 2007

[1] 1972 c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994

[2] *Gweler* Gorchymyn (Trosglwyddo Swyddogaethau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 (O.S. 1996/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad o ganlyniad i Weinidogion Cymru gan atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c. 38).

Crynodeb o Gynrychiolaethau a Gafwyd mewn Ymateb i'r Cynigion Drafft

Rhoes **Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr** ddiolch i'r Comisiwn am ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau gan fod hyn wedi'u galluogi i gynnal ymarferiad ymgynghori cyhoeddus llawn er mwyn ceisio barn trigolion a fyddai o bosibl yn cael eu heffeithio gan y newid [i'r ffin rhwng Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr] yn y cynigion drafft. Anfonwyd llythyr eglurhaol a holiadur syml at 184 cartref a chafwyd 76 ymateb (42%). Rhoddwyd tri dewis yn yr holiadur:

- … Hoffwn aros yn Ward Yr Hen Gastell a Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
- … Hoffwn symud i Ward Bryntirion / Trelales / Merthyr Mawr a Chyngor Cymuned Merthyr Mawr
- … Nid oes gennym ffafriaeth y naill ffordd na'r llall

Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

Fesul Heol	O blaid Pen-y-bont ar Ogwr Dim Newid	O blaid Merthyr Mawr
Island Farm Close	3	2
Heol-yr-Ynys	6	DIM
Ewenny Road	13	4
Priory Close	5	DIM
Priory Avenue	26	1
Y Parc	4	DIM
Heronstone Park	9	DIM
Heronstone Lane	1	2
	67	9
	88%	12%

Roedd y Cyngor o'r farn fod y canlyniad yn gwbl glir.

Cadarnhaodd y Cyngor fod eu cynigion gwreiddiol yn ymwneud ag anghysondebau'r ffin bresennol ac nid eu nod oedd peryglu parhad y cyngor cyfagos. Nodwyd ganddynt fod eu rhagfynegiad ynghylch datblygu 'tir agored' sydd ar y ffin ag Island Farm Road ac Island Farm Close wedi digwydd erbyn hyn. Cynhyrchwyd briff datblygu ar gyfer yr ardal benodol honno'n ddiweddar a byddai'n destun cais cynllunio llawn yn 2009. Roedd y Cyngor o'r farn fod momentwm amlwg ar gyfer defnydd llawn neu rannol o'r tir dan sylw. Mae'r Cyngor o'r farn y byddai datblygiad o'r fath yn arddel yr enw "Pen-y-bont ar Ogwr" ac y bydd hyn yn gofyn am lefel uchel o sylw, ac yn eu tyb nhw dim ond eu Cyngor nhw all ddarparu hynny.

Gwnaeth y Cyngor sylwadau hefyd am y gynrychiolaeth a wnaethpwyd gan Gyngor Cymuned Merthyr Mawr a oedd yn nodi fod angen newidiadau er 'hyfywedd parhaus y Cyngor'. Mae Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr o'r farn fod gan y cyngor hwn [Merthyr Mawr] lai na £1,000 y flwyddyn ar gael i'w wario ar wasanaethau lleol ar draws ardal eang, ac felly prin y byddai unrhyw gynnydd yn y praesept yn sgil newid i'r ffin. Cododd y Cyngor y pwynt y cafwyd etholiadau a ymladdwyd ym mhob etholiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn wahanol i Ferthyr Mawr, a bod eu Cyngor dan graffu cyhoeddus parhaus, gyda'r wasg yn mynychu pob cyfarfod. Nododd y Cyngor nad oedd ganddynt unrhyw fwriad yn wreiddiol i danseilio bodolaeth cyngor cyfagos ond fod yn rhaid iddynt amddiffyn hawl eu hetholwyr presennol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion hyn i gael eu barn wedi'i hystyried yn briodol.

Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Bracla** i ddweud nad oedd ganddynt sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch y Cynigion Drafft ar hyn o bryd.

Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Trelales** i ddweud eu bod yn derbyn y cynigion yn ymwneud ag adlinio ffiniau'r gymuned. Fodd bynnag, pe bai Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn llunio dadl gryfach dros ddiddymu Cyngor Cymuned Merthyr Mawr o ganlyniad i'r Cynigion Drafft, byddent yn gobeithio y byddai'r Comisiwn yna'n cymryd i ystyriaeth eu barn mai afon Ogwr fyddai'r llinell ffin newydd i orllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Merthyr Mawr** i gefnogi'r cynnig [a wnaethpwyd yn yr adroddiad Cynigion Drafft] yn ymwneud â newid y ffin ac roeddent o'r farn ei fod er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Nodwyd ganddynt fod Cyngor Cymuned Trelales yn cefnogi'r cynnig ac nad oeddent yn teimlo ei fod yn addas cynnwys Merthyr Mawr o fewn eu ffin eu hunain. Roedd Cyngor Cymuned Merthyr Mawr o'r farn y byddai'r cynnig yn sicrhau hyfywedd parhaus y Cyngor, gan roi fwy o etholwyr iddo ynghyd â phraesept gwell. Byddai'r anghysondeb yn y ffin bresennol yn cael ei gywiro. Byddai hefyd yn rhoi gwir lais i ardal fawr o dir na fyddai efallai mor gryf pe bai'n cael ei hamsugno fel ychwanegiad i dref Pen-y-bont ar Ogwr. Roeddent o'r farn fod gan y Cyngor hanes da iawn o geisio partneriaeth gyda chynghorau eraill a'i fod bob amser wedi darparu cynrychiolaeth mewn cyrff priodol. Maent yn dweud fod gan y Cyngor hanes hir o gymryd rhan lawn mewn ymarferion ymgynghori a gynhelir gan y Cyngor Sir a chan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol yn yr ymgynghori ar y Parc Gwyddoniaeth presennol a'r un arfaethedig, ac ar fusnesau eraill, i'r de o'r A48 ers nifer o flynyddoedd. Maent yn ystyried bod gan y Cyngor y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, i gymryd rhan lawn mewn materion yn ymwneud â chyflogaeth newydd a chyfleusterau tai, yn ogystal â materion gwledig. Pe bai'r cyngor yn cael ei ddiddymu a'r ardal yn cael ei hamsugno i Ben-y-bont ar Ogwr byddai'n niweidiol ac efallai na fyddai'n rhoi grym digonol i rannau mwy gwledig y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r newid hwn hefyd yn golygu y byddai Tref Pen-y-bont yn rhedeg i gyrion Porthcawl sydd cryn bellter o ganol y dref.

Mewn cynrychiolaeth arall, ar ôl cael gwybod am ymarferiad ymgynghori Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Merthyr Mawr** i ofyn i'r Comisiwn ystyried fformat y llythyr i gartrefi a'r cwestiynau a holwyd ynddo wrth ddod i benderfyniad ynghylch dilysrwydd yr arolwg. Maent o'r farn y byddai'n fwy priodol pe bai'r arolwg wedi cael ei gynnal gan gorff annibynnol ar ôl ymgynghori â'r ddau Gyngor. Nodasant eu bod yn y broses o benodi Clerc newydd gan fynegi eu barn eu bod wedi gwasanaethu'n gyson dda yn yr ardal ers dechrau'r Cyngor nifer o flynyddoedd yn ôl a'u bod yn gobeithio gwneud hynny mewn modd priodol a phroffesiynol yn y dyfodol.